PWYLLGOR CRAFFU
LLE, CYNALIADWYEDD A NEWID HINSAWDD

DYDD MERCHER, 31 GORFFENNAF 2024

PRESENNOL Cynghorydd K. Madge (Cadeirydd)

Cynghorwyr (Yn y Siambr):

K. Davies	S.M. Allen	T.A.J. Davies	B.D.J. Phillips

Cynghorwyr (Yn rhithwir):

D.C. Evans	T.M. Higgins	N. Lewis	S. Godfrey-Coles

Hefyd yn bresennol (Yn y Siambr):
Cynghorydd A. Vaughan Owen, Yr Aelod Cabinet dros Newid Hinsawdd, Datgarboneiddio a Chynaliadwyedd;
Cynghorydd E. Thomas, Yr Aelod Cabinet dros Transport, Gwasanaethau Trafnidiaeth, Gwastraff a Seilwaith.

Hefyd yn bresennol (Yn y Siambr):
D.W. John, Pennaeth Seilwaith Amgylcheddol;
J. Edwards, Rheolwr Gwella Busnes;
D. Hall-Jones, Swyddog Cefnogi Aelodau;
Y. L. Thomas, Rheolwr Prosiect Trawsnewid Gwastraff;
J. Owen, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd.

Hefyd yn bresennol (Yn rhithwyr):
R. Griffiths, Pennaeth Lle a Chynaliadwyedd;
H. Neil, Uwch Swyddog Diogelu Defnyddwyr;
C. Ferguson, Rheolwr Mynediad i Gefn Gwlad;
M. Roberts, Swyddog Polisi Ansawdd yr Amgylchedd Lleol;
M. Runeckles, Swyddog Cefnogi Aeolodau.

Siambr, Neuadd y Sir, Caerfyrddin, SA31 1JP ac o bell: 2:00yp - 4:00yp

1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorydd P. Cooper a G.B. Thomas.

2. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL GAN GYNNWYS UNRHYW CHWIPIAU PLEIDIAU A RODDIR MEWN YMATEB I UNRHYW EITEM AR YR AGENDA.

Ni chafwyd dim datganiadau o fuddiant personol.
Ni chafwyd dim datganiadau ynghylch unrhyw chwip waharddedig.

3. CWESTIYNAU GAN Y CYHOEDD

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd dim cwestiynau wedi dod i law gan y cyhoedd.

4. ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PWYLLGOR CRAFFU LLE, CYNALIADWYEDD A NEWID YR HINSAWDD 2023/24

Cafodd y Pwyllgor ei Adroddiad Blynyddol ar y gwaith a gyflawnwyd yn ystod blwyddyn y cyngor 2023/24. Nodwyd bod yr adroddiad wedi'i baratoi'n unol ag Erthygl 6.2 o Gyfansoddiad y Cyngor a'i fod yn rhoi trosolwg o'r rhaglen waith a materion allweddol dan sylw, gan gynnwys hefyd unrhyw faterion a gyfeiriwyd at neu gan y Cabinet, adolygiadau Gorchwyl a Gorffen a sesiynau datblygu.

Rhoddwyd diolch i aelodau'r Pwyllgor am eu gwaith a'u hymrwymiad drwy gydol y flwyddyn ac i'r swyddogion am eu cymorth a'u cefnogaeth amhrisiadwy.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL gymeradwyo Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Craffu Lle, Cynaliadwyedd a Newid Hinsawdd ar gyfer 2023/24.

5. ADRODDIAD PERFFORMIAD CWARTER 4 - 2023/24

Derbyniodd y Pwyllgor adroddiad diwedd blwyddyn ynghylch Perfformiad ar gyfer 2023/24 i'w ystyried. Roedd yr adroddiad yn dangos cynnydd y camau a'r mesurau a oedd yn gysylltiedig â'r Strategaeth Gorfforaethol ar ddiwedd 2023/24 a'r Amcanion Llesiant a oedd o fewn maes gorchwyl y Pwyllgor Craffu.

Rhoddwyd sylw i'r sylwadau canlynol wrth drafod yr adroddiad:-

- Cyfeiriwyd at dudalen 3 yr adroddiad Mewn ymateb i ymholiad ynghylch cwynion cam 2, eglurodd y Rheolwr Gwella Busnes, er bod yr adran yn ymdrechu i ddatrys materion o fewn y targed o 21 diwrnod, roedd natur rhai achosion yn gymhleth ac roedd angen amser ychwanegol i ymchwilio/datrys.

- Cyfeiriwyd at y cynllun rheoli perygl llifogydd ar dudalen 6 yr adroddiad, a gofynnwyd am y diweddaraf o ran cynnydd. Eglurodd y Pennaeth Lle a Chynaliadwyedd fod y cynllun wedi'i ddatblygu a'i fod yn cael ei gwblhau ar hyn o bryd.

- Gan gyfeirio at y camau yn ymwneud â'r argymhellion ynghylch tipio anghyfreithlon a oedd yn deillio o'r adolygiad gorchwyl a gorffen ar dudalen 6 yr adroddiad, eglurodd y Pennaeth Seilwaith Amgylcheddol fod nifer o'r argymhellion wedi'u cyflawni, fodd bynnag, roedd gwaith yn parhau ar ddatblygu'r Strategaeth Tipio Anghyfreithlon gyda'r bwriad i'w chwblhau ddiwedd mis Mawrth 2025. Nodwyd bod gostyngiad sylweddol wedi bod mewn tipio anghyfreithlon dros y 12 mis diwethaf ers cwblhau'r camau. Yn ogystal, bu cynnydd ar gyfryngau cymdeithasol ynghylch tipio anghyfreithlon yn ogystal ag adrodd am yr Hysbysiadau Cosb Benodedig a'r llwyddiannau yn dilyn camau gorfodi. Roedd trafodaethau'n cael eu cynnal gyda'r adran Cymunedau mewn perthynas â'r un pwynt cyswllt/tîm ar gyfer tipio anghyfreithlon gan ystyried yr adnoddau a'r goblygiadau staffio. Ar ben hynny, roedd gwaith yn mynd rhagddo wrth ystyried un platfform i'r cyhoedd adrodd am dipio anghyfreithlon.

- Gofynnwyd am ddiweddariad mewn perthynas â gweithredu ar ddatblygu Strategaeth Trafnidiaeth Gymunedol, tudalen 9 yr adroddiad. Eglurodd y Pennaeth Seilwaith Amgylcheddol fod gwaith yn mynd rhagddo o ran datblygu'r strategaeth a'i fod ar hyn o bryd yn aros am ganlyniadau'r ymgynghoriad cyhoeddus ar y Strategaeth Drafnidiaeth Ranbarthol. Byddai goblygiadau'r Strategaeth Drafnidiaeth Ranbarthol yn cael effaith ar y Strategaeth Drafnidiaeth Gymunedol. Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau y byddai Cyngor Sir Caerfyrddin yn cynnal ymarfer ymgysylltu â'r cyhoedd ym mis Medi / Hydref eleni i helpu i lywio a mireinio'r Strategaeth Drafnidiaeth Gymunedol.

- Mewn ymateb i ymholiad ynghylch llwybr Beicio Dyffryn Tywi, rhoddodd y Pennaeth Seilwaith Amgylcheddol ddiweddariad i'r pwyllgor yn nodi bod yr ymchwiliad cyhoeddus wedi'i gynnal gan ddod i'r casgliad bod y Gorchmynion Prynu Gorfodol yn gallu bwrw ymlaen. Rhoddwyd sicrwydd bod y cyllid yn ddiogel.

- Cyfeiriwyd at y % yr ailgylchu sydd wedi'i halogi a welwyd ar dudalen 8 yr adroddiad. Mynegwyd pryder bod canran fawr o'r ailgylchu a wnaed yn parhau i fod wedi'i halogi. Dywedodd Rheolwr y Prosiect Trawsnewid Gwastraff fod proses gorfodaeth addysg ar waith yn y gwasanaeth oedd yn cael ei rheoli gan y criwiau gweithredol. Byddai Hysbysiadau Cosb Benodedig yn cael eu rhoi yn dilyn proses o 3 cham addysg. Mynegwyd pryder mewn perthynas â'r diffyg rheoli gwastraff mewn llety rhent a oedd yn achosi gwastraff annymunol a chynnydd mewn problemau llygod mawr, pwysleisiwyd bod angen rhoi ystyriaeth i wastraff mewn perthynas â chytundebau rhent.

- Cyfeiriwyd at y cam gweithredu canlynol ar dudalen 11 yr adroddiad. - Gweithio gyda Llywodraeth Cymru i sicrhau bod seilwaith trydan ar waith i'n galluogi i ddatblygu prosiectau ynni adnewyddadwy uchelgeisiol i gyrraedd sero net, Wrth gydnabod ei fod yn cyrraedd y targed, gofynnwyd a oedd cynnydd parhaus ar y cam gweithredu hwn? Yn ogystal, gofynnwyd a yw'r newid o ran AS yn helpu gyda'r heriau sy'n wynebu adeiladu ynni adnewyddadwy? Nododd y Pennaeth Lle a Chynaliadwyedd fod mynediad i'r grid, yn enwedig ar hyd coridor De Cymru yn gyfyngedig. Roedd gwaith wedi bod yn digwydd gyda gwasanaeth ynni Llywodraeth Cymru a'r gwaith gwella yr oeddent yn ei wneud i'r grid. Roedd cydweithwyr yn gweithio ar gynigion allweddol ar draws yr Awdurdod a Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru i ddatblygu'r Cynllun Asedau Strategol ar gyfer Cymru Gyfan a fyddai'n bwydo i mewn i Gynllun Asedau y DU.

Gofynnwyd cwestiwn ychwanegol ynghylch argaeledd grantiau i fusnesau yn Sir Gaerfyrddin i ddatblygu effeithlonrwydd ynni mewn ynni adnewyddadwy? Dywedodd yr Aelod Cabinet dros Newid Hinsawdd, Datgarboneiddio a Chynaliadwyedd y byddai'n gwneud ymholiadau i ddarganfod mwy a phetai arian ar gael, byddai'n cael ei hyrwyddo i sicrhau y gallai busnesau fanteisio ar y grantiau sydd ar gael.

- Cyfeiriwyd at nifer y beicwyr modur sy'n cael eu lladd a'u hanafu'n ddifrifol ar ffyrdd a nifer y bobl ifanc sy'n cael eu lladd a'u hanafu'n ddifrifol ar ffyrdd, tudalen 20 yr adroddiad. Mynegwyd pryder am y cynnydd yn y canrannau, gofynnwyd beth oedd yn cael ei wneud i wella hyn? Dywedodd y Pennaeth Seilwaith Amgylcheddol, gan nad oedd ganddo'r wybodaeth berthnasol wrth law ac nid oedd am ddyfalu ar fater mor bwysig, y byddai'n dosbarthu'r wybodaeth i aelodau drwy e-bost.

PENDERFYNWYD derbyn Adroddiad Perfformiad diwedd blwyddyn 2023/24.

6. DIWEDDARIAD AR GYFER YSTYRIED GORCHYMYN DIOGELU MANNAU AGORED CYHOEDDUS YCHWANEGOL AR GYFER GORCHMYNION CWN SIR GAERFYRDDIN

Bu'r Pwyllgor yn ystyried Gorchymyn Diogelu Mannau Agored Cyhoeddus Ychwanegol ar gyfer Gorchmynion Cŵn Sir Gaerfyrddin. Wrth gyflwyno'r adroddiad roedd yr Aelod Cabinet dros Newid Hinsawdd, Datgarboneiddio a Chynaliadwyedd wedi atgoffa'r Pwyllgor y cafwyd argymhelliad ar 24 Tachwedd 2022 i gyflwyno gwaharddiad ledled y Sir ar gŵn yn mynd i gae chwaraeon wedi'i farcio a chyflwyno Hysbysiad Cosb Benodedig am y drosedd o beidio â gallu glanhau ar ôl eu ci.

Roedd yr adroddiad yn rhoi diweddariad i'r aelodau a'r opsiynau sydd ar gael i'r Awdurdod yn seiliedig ar gyngor cyfreithiol

Cafwyd y cwestiynau a'r ymholiadau canlynol mewn perthynas â'r adroddiad:-

- O ran y cynnig i roi Hysbysiad Cosb Benodedig am y drosedd o beidio â chodi baw ci, gofynnwyd sut y byddai hyn yn cael ei orfodi? Dywedodd yr Aelod Cabinet er mai'r Heddlu oedd â'r gallu i stopio a gorfodi, y gobaith oedd y byddai perchnogion cŵn yn cydymffurfio â'r Gorchymyn Gwarchod Mannau Cyhoeddus ychwanegol a byddai gwaith hyrwyddo yn atgoffa perchnogion cŵn o'u cyfrifoldebau mewn cysylltiad â'r Gorchymyn Gwarchod Mannau Cyhoeddus presennol a'r Gorchymyn Gwarchod Mannau Cyhoeddus ychwanegol hwn. Yn ogystal, roedd dibyniaeth ar aelodau'r cyhoedd i roi gwybod i'r Cyngor am berchnogion cŵn anghyfrifol.

- Awgrymwyd bod Swyddogion yn gweithio gyda Chynghorau Tref a Chymuned i ddylunio arwyddion safonol i'w defnyddio ar draws y Sir i hysbysu'r cyhoedd am yr ardaloedd sy'n destun i'r Gorchymyn Gwarchod Mannau Cyhoeddus a'r hyn sy'n ofynnol.

PENDERFYNWYD:-

6.1 Bod yr adroddiad yn cael ei dderbyn;
6.2 argymell i'r Cabinet y dylid cymeradwyo'r opsiwn a argymhellir i fynd i'r afael â materion Ymddygiad Gwrthgymdeithasol sy'n gysylltiedig â chŵn yn yr adroddiad.

7. STRATEGAETH FARCHOGAETH SIR GAERFYRDDIN

Bu'r Pwyllgor yn ystyried Strategaeth Farchogaeth Caerfyrddin a oedd yn rhoi diweddariad ar ddatblygiad y Strategaeth Farchogaeth sydd ar ddod gan gynnwys cyfres o gamau gweithredu arfaethedig i'w cynnwys yn y ddogfen derfynol.

Wrth gyflwyno'r adroddiad mynegodd yr Aelod Cabinet dros Newid Hinsawdd, Datgarboneiddio a Chynaliadwyedd ei ddiolch i'r tîm am ddarparu'r adroddiad a gofynnodd am sylwadau'r aelodau.

Cafwyd y sylwadau a'r ymholiadau canlynol mewn perthynas â'r adroddiad:-

- Cydnabuwyd bod y ddarpariaeth ar gyfer marchogaeth yn anghyson ledled y Sir. Nifer cyfyngedig o ardaloedd oedd ar gael lle gellid marchogaeth ceffylau yn ddiogel. Roedd gwerthfawrogiad o'r pryderon a godwyd gan y gymuned farchogaeth o ran ffyrdd diogel i farchogaeth ceffylau.

- Wrth gydnabod rheswm a rhesymeg y strategaeth, roedd pryder ynghylch yr agwedd ariannol wrth ei rhoi ar waith ac y byddai angen ystyried a chyllidebu ar gyfer hyn. Eglurodd y Pennaeth Seilwaith Amgylcheddol fod y Strategaeth yn cael ei datblygu gan ystyried adnoddau ariannol. Rhaid i'r camau gweithredu yn yr adroddiad fod yn gymesur a dangos y gwerth gorau yn ogystal â bod o fewn cyllideb bresennol y portffolio. Ar ben hynny, byddai'n ofynnol i ganlyniadau ddod o fewn y cyllidebau presennol, pe na bai hyn yn digwydd, byddent yn amodol ar gael cyllid grant neu gyllid ychwanegol.

- Cyfeiriwyd at baragraff 7.5 o'r adroddiad - 7.5 Diwygio Mynediad yng Nghymru yn benodol o ran y frawddeg a oedd yn nodi 'Byddai un o'r diwygiadau arfaethedig yn golygu ymestyn hawliau i reidio beic neu farchogaeth ceffyl ar lwybrau troed cyhoeddus.' Mynegwyd pryder y byddai'r cysylltiad rhwng llwybrau yn golygu y byddai'n rhaid i geffylau deithio ar briffordd gyhoeddus. Cadarnhaodd y Rheolwr Mynediad Cefn Gwlad mai un o'r cynigion o fewn y Rhaglen Diwygio Mynediad Cymru oedd caniatáu beicio a marchogaeth ceffylau ar lwybrau troed cyhoeddus. Gan fod hyn yn gynnar iawn yn y datblygiad, nid oedd yn bosibl pennu'r canlyniad.

PENDERFYNWYD nodi'r cynnydd a wnaed ar ddatblygu'r Strategaeth Farchogaeth.

8. STRATEGAETH WASTRAFF SIR GAERFYRDDIN - CYNLLUN GWEITHREDU GLASBRINT

Bu'r Pwyllgor yn ystyriaeth adroddiad ar Strategaeth Wastraff Sir Gaerfyrddin - Cynllun Gweithredu Glasbrint. Roedd yr adroddiad a gyflwynwyd gan yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau Trafnidiaeth, Gwastraff a Seilwaith yn amlinellu'r bwriad i newid i fethodoleg gasglu glasbrint ailgylchu Llywodraeth Cymru. Adroddwyd bod yr Awdurdod wedi cyrraedd ei darged ailgylchu o 70% o drwch blewyn ar gyfer 2024/2025.

Cyfeiriwyd at y cosbau ariannol sylweddol a fyddai'n cael eu rhoi pe bai'r Awdurdod yn methu â chyrraedd y targedau ailgylchu statudol. Ar ben hynny, wrth ystyried rhwymedigaethau moesol yr Awdurdod i leihau ei ôl troed carbon, tynnwyd sylw at yr ymdrechion a wnaed hyd yma i symud tuag at system sy'n seiliedig ar egwyddorion economi gylchol.

Yn unol â hynny, er mwyn cyrraedd y targed disgwyliedig o 80% erbyn 2030, mynd i'r afael â materion halogi a darparu gwasanaeth cost-effeithiol, roedd yn ofynnol i'r Cyngor roi ail gam ei Strategaeth Wastraff ar waith a fyddai'n cyflwyno system gasglu newydd i gynyddu cyfraddau ailgylchu, lleihau gwastraff, a chyd-fynd ag amcanion Llywodraeth Cymru.

Rhoddwyd ystyriaeth i'r rhesymeg a chyfres o opsiynau y manylwyd arnynt yn yr adroddiad.

Cafwyd y sylwadau a'r ymholiadau canlynol mewn perthynas â'r adroddiad:-

- Ymatebodd y Pennaeth Seilwaith Amgylcheddol i nifer o gwestiynau a godwyd gan gynnwys y canlynol:-

  - Roedd trafodaethau parhaus yn cael eu cynnal gydag Asiantaeth Cefnffyrdd De Cymru i ddarparu gwelliannau diogelwch ar unwaith ar hyd yr A48 o ran mynediad ac allanfa safle ailgylchu Nant-y-caws.

  - Nid oedd y cynnig hwn yn effeithio ar y safleoedd Ailgylchu Gwastraff y Cartref.

  - Ar ôl cwblhau Cam 1, roedd llawer wedi'i ddysgu o ran gweithredu, cynllunio a chyflawni. Cydnabuwyd bod heriau o ran y bocsys casglu gwydr, felly byddai'n allweddol cynllunio darpariaeth y cynwysyddion newydd. Lluniwyd adroddiad llawn ar y gwersi a ddysgwyd ar y cyd â'r tîm Trawsnewid a oedd yn amlinellu beth oedd yr heriau a sut i'w goresgyn yn y dyfodol. Yn ogystal, roedd y gefnogaeth gan WRAP Cymru yn amhrisiadwy o ran gweithredu, rhoi'r criwiau ar waith a'r ddarpariaeth.

  - Roedd cofrestr risg ariannol fanwl ar waith a oedd yn cael ei monitro'n barhaus. Byddai unrhyw gynnydd mewn costau yn cael ei gyfathrebu yn unol â hynny.

  - O ran wythnos waith 4 diwrnod, eglurwyd bod achos busnes yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd yn y Gwasanaeth Gwastraff ar gyfer y patrwm gwaith newydd.

- Gofynnwyd am eglurhad ynghylch canoli'r gwasanaeth yn Nant-y-caws. Esboniodd Pennaeth Seilwaith yr Amgylchedd fod gwastraff sy'n cael ei gasglu yn Llanelli ar hyn o bryd yn cael ei anfon i orsaf drosglwyddo yn Nhrostre ac yna'n cael ei gludo i Nant-y-caws ar lorïau. Mae cynnig wedi'i wneud i drosglwyddo staff depo Trostre, gosod y cerbydau yn Nant-y-caws gan ddileu'r broses o drosglwyddo gwastraff o Drostre i Nant-y-caws. Cadarnhawyd y byddai darpariaeth y Ganolfan Ailgylchu Gwastraff y Cartref yn Nhrostre yn parhau.

- Mynegwyd pryder fod y casgliad arfaethedig o 4 wythnos ar gyfer bagiau du yn amser hir i bobl sy'n byw mewn fflatiau bach a theuluoedd mawr. Eglurodd y Pennaeth Seilwaith Amgylcheddol fod gan fflatiau ddarpariaeth whilfiniau ac na fyddai newid i'r casgliad gwastraff. Mewn ymateb i'r pryder ynghylch bagiau du, pe bai pob cartref yn didoli ac yn gwahanu gwastraff bwyd a defnyddio'r cynllun ailgylchu gwastraff cewynnau ynghyd â'r dulliau ailgylchu eraill, ni ddylai'r bag du gynnwys llawer iawn o wastraff arall.

Gwahoddwyd cynrychiolydd o WRAP Cymru i annerch y Pwyllgor. Mae WRAP Cymru wedi cefnogi nifer o gynghorau ledled Cymru yn ystod y broses o drosglwyddo i fethodoleg casglu glasbrint lle mae ailgylchu'n cael ei gasglu mewn cynwysyddion ar wahân ar gerbydau. O ran halogiad, roedd y criwiau'n gallu adnabod deunyddiau anaddas yn hawdd gan leihau'r risg o halogiad. Pe bai problem, byddai criwiau yn rheoli'r mater trwy adael y cynhwysydd a rhoi gwybod i ddeiliad y tŷ am y rheswm. Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau fod Cyngor Sir Conwy wedi cyflwyno'r casgliad 4 bag du wythnosol 3-4 blynedd yn ôl a'i fod wedi gwella'r gyfradd ailgylchu yn sylweddol o 11.5%.

Mewn ymateb i ymholiad, eglurodd Rheolwr y Prosiect Trawsnewid Gwastraff fod canllaw A-Y ar gael ar-lein i helpu, addysgu a hysbysu trigolion gan roi esboniad o'r hyn y gellir ei roi mewn gwahanol gynwysyddion a'r hyn na ellir ei roi. Yn ogystal, mae Ymgynghorwyr Ailgylchu Cymunedol, fel rhan o'r broses addysg a gorfodi, yn mynd ati i ymweld â thrigolion nad oes ganddynt fynediad i'r rhyngrwyd neu sydd angen cymorth ychwanegol.

PENDERFYNWYD:

8.1 i dderbyn y Cynllun Gweithredu Glasbrint;
8.2 argymell i'r Cabinet fod yr argymhellion a ddarperir yn yr adroddiad yn cael eu mabwysiadu.

9. EITEMAU AR GYFER Y DYFODOL

Cafodd y Pwyllgor restr o'r eitemau a fyddai'n cael eu hystyried yn ei gyfarfod nesaf ar 7 Hydref 2024.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL gytuno ar y rhestr o'r eitemau i'w hystyried yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor ar 7 Hydref 2024.

10. LLOFNODI YN GOFNOD CYWIR COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 6 MEHEFIN 2024

PENDERFYNWYD llofnodi cofnodion cyfarfod y Pwyllgor a gynhaliwyd ar 6 Mehefin, 2023 fel cofnod cywir.

CADEIRYDD **DYDDIAD**